# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Cymorth i Deuluoedd/Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant/Dechrau'n Deg

**SWYDD**: Uwch-weithiwr Gofal Plant

**GRADD Y SWYDD:** GR08

**YN ATEBOL I'R:** Arweinydd Tîm Gofal Plant Dechrau'n Deg

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Mae'r swydd hon yn cyfrannu at brif nod y Gyfarwyddiaeth, sef helpu'r holl blant a phobl ifanc i: ffynnu a gwneud y defnydd gorau o'u talentau; byw bywydau iach a diogel; bod yn unigolion hyderus a gofalgar; gwybod a derbyn eu hawliau.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Deiliad y swydd fydd yr uwch-weithiwr gofal plant mewn un o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg CBSP, gan ddarparu gofal plant ac addysg o ansawdd uchel fel rhan o raglen Dechrau'n Deg, gan gynllunio a goruchwylio gweithgareddau gan ddefnyddio athroniaeth ac ethos y rhaglen Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, cynllunio a gweithredu gweithgareddau bob dydd gyda'ch cydweithwyr sy'n diwallu'r anghenion a'r camau datblygu, sy'n briodol i oedran y plant.

- Gyda chefnogaeth yr Arweinydd Tîm Gofal Plant Dechrau'n Deg byddwch yn gyfrifol am redeg y lleoliad o ddydd i ddydd gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol ar bob adeg. Rhoi sylw i anghenion corfforol plant fel mynd i'r toiled, newid cewynnau. Byddwch yn sicrhau bod y lleoliad gofal plant yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch, er mwyn cadw plant yn ddiogel, bydd gennych brofiad realistig o ofynion safonau gofynnol cenedlaethol CIW ar gyfer lleoliadau gofal plant cofrestredig, ac yn gallu cymhwyso'r profiad hwn i ymarfer.

- Byddwch yn ymgymryd ag arsylwadau, yn asesu ac yn cynllunio ar gyfer anghenion unigol plant, wedi'ch cefnogi gan weithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn datblygu cynlluniau chwarae unigol fel y bo'n ofynnol. Byddwch yn datblygu, gyda chymorth yr Arweinydd Tîm Gofal Plant Dechrau'n Deg a Thîm Ansawdd ac Effaith, cynllunio hirdymor a thymor byr yn unol ag amcanion y cwricwlwm i gynorthwyo athroniaeth arfer a rhaglen sy'n briodol yn ddatblygol.

- Byddwch yn trefnu'r amgylcheddau dysgu gofal plant dan do ac yn yr awyr agored yn unol â nodau ac athroniaeth y rhaglen, gan helpu plant i ddysgu drwy weithgareddau a chwarae, gan ddarparu amgylchedd ysgogol, gofalgar a diogel i'r plant yn eich gofal. Byddwch hefyd yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol fel Therapyddion Lleferydd ac Iaith i ddatblygu gweithgareddau i

gefnogi datblygiad iaith gan gynnwys darllen straeon a darparu gweithgareddau eraill â ffocws.

- Byddwch yn gweithio'n agos gyda rhieni gan gyfnewid gwybodaeth am ddatblygiad eu plentyn, cadw cyfrinachedd, mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi fel sy'n ofynnol gan yr Arweinydd Tîm Gofal Plant Dechrau'n Deg a Thîm Ansawdd ac Effaith.

- Byddwch yn cyflwyno data ac yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â monitro'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan gadw cofnodion priodol fel asesiadau, presenoldeb a thaflenni amser. Byddwch yn trefnu ac yn storio teganau, adnoddau a deunyddiau i sicrhau trefn mewn ardaloedd gweithgaredd, gan archwilio deunyddiau a ddifrodwyd neu a gollwyd a rhoi rhai newydd yn eu lle.

- Bydd gennych ddealltwriaeth effeithiol o egwyddorion gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant, gan roi gwybod i'r uwch-swyddog Awdurdod Lleol priodol am unrhyw bryderon am ddiogelu/amddiffyn plant. O fewn rôl Uwch-weithiwr Gofal Plant byddwch yn ymgymryd â'r gwaith o reoli staff a'r lleoliad o ddydd i ddydd, gan gyfrannu at brosesau goruchwylio ac arfarnu effeithiol a nodir ym mholisïau CBSP. Byddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd yn y swydd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Uwch-weithiwr Gofal Plant

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon.  Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster Lefel 3 a Lefel 5 priodol mewn Gofal Plant, fel y nodir yn Rhestr o Gymwysterau Derbyniol ar gyfer Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a nodir gan Gyngor Gofal Cymru.<br>• Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli CCLD.<br>• Sgiliau rhifedd / llythrennedd / TG da i Lefel 2.<br>• Cymwysterau Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd Cyfredol | (Ydy)<br>(Ydy)<br>(Ydy) | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o reoli lleoliad gofal plant a gweithio'n effeithiol fel arweinydd tîm.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth sylweddol o ddatblygiad plant ac addysg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar.<br>• Dealltwriaeth effeithiol o faterion diogelu / amddiffyn plant.<br>• Profiad o weithio mewn lleoliad y blynyddoedd cynnar a gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a'u teuluoedd.<br>• Gallu datblygu polisïau a gweithdrefnau perthnasol.<br>• Profiad o weithio gyda rhieni mewn lleoliad gofal plant.<br>• Gallu cynllunio gweithgareddau datblygiadol addas i blant.<br>• Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gymunedau difreintiedig. | (Ydy) – profiad o reoli lleoliad gofal plant<br>(Ydy) – dealltwriaeth o faterion diogelu<br>(Ydy) – profiad o weithio mewn lleoliad y blynyddoedd cynnar<br>(Ydy) – profiad o weithio gyda rhieni | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu arwain tîm yn effeithiol, gan ddatblygu sgiliau'r tîm a'ch arweinyddiaeth eich hun fel yr | (Ydy) | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | arweinydd tîm.<br>• Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion.<br>• Sgiliau cyfathrebu gwych.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Gallu dangos sgiliau effeithiol wrth reoli amser<br>• Ymrwymiad amlwg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.<br>• Cadernid ac uniondeb.<br>• Trwydded yrru ddilys gyda mynediad i gar<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | (Ydy) | ddethol. |